

## Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-01-00(p.1)

### Pwyllgor Llywodraeth Leol, yr Amgylchedd,

### Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth LGE-02-00(p.1)

Dyddiad: Dydd Iau 20 Ionawr 2000

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Teitl: Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd: Dirwyn i be

### **Cyflwyniad**

1. Disgrifiwyd y broses o ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben, a'i diddymu, mewn papurau blaenorol [EDC-12-99 (p.1) a gyflwynwyd ar 15 Rhagfyr 1999; ac EDC-06-99 (p.6) a gyflwynwyd ar 29 Medi 1999.]

2. Mae'r papur hwn:

- yn crynhoi'r cytundebau a fydd yn trosglwyddo asedau, rhwymedigaethau a chyfrifoldebau CDBC (atodiadau 1-5); ac yn
- darparu drafftiau o'r gorchmynion perthnasol (atodiadau 6-9) a fydd yn cael eu cyhoeddi ar y Fewnwyd ar 20 Ionawr.

### **Y Cytundebau**

3. Cyn y bydd modd i'r broses o ddiddymu fynd yn ei blaen, rhaid bod holl eiddo a chyfrifoldebau Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi'u cymryd oddi wrthi. Mewn rhai achosion, y ffordd orau o wneud hyn yw drwy orchymyn; fodd bynnag, fel arfer bydd y broses o drosglwyddo yn cael ei chyflawni drwy gyfrwng cytundebau dwyochrog, a wneir o dan bwerau yn Neddf Cynllunio a Thir Llywodraeth Leol 1980.

4. Mae atodiadau 1-5 yn crynhoi'r cytundebau sydd wedi eu paratoi gyda phob un o'r cyrff olynol, h.y.: gyda Chyngor Sir Caerdydd mewn perthynas â'i fuddiannau presennol fel awdurdod lleol, gan gynnwys cwblhau projectau sydd eisoes ar y gweill yn ei ardal; gyda Chyngor Sir Caerdydd mewn perthynas â'i fuddiannau newydd fel awdurdod y porthladd; gyda Chyngor Bro Morgannwg ynghylch ei ddiddordebau lleol gan gynnwys cwblhau'r project Cyswllt â Phenarth; gydag Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer Menter Cyllid Preifat Rhodfa Bute, a'r asedau a'r rhwymedigaethau datblygu; a chyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer gwarchodfa adar Gwastadeddau Gwent.

### **Y Gorchmynion**

5. Mae angen pedwar gorchymyn; gorchmynion lleol ydynt i gyd sy'n cael eu gwneud o dan bwerau a grëwyd

yn Neddf Cynllunio a Thir Llywodraeth Leol 1980 ac a ddatganolwyd o dan y gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau.

6. Y Gorchymyn Diddymu yw'r offeryn sy'n dileu'r Gorfforaeth. Mae'n gwneud hynny mewn dau gam, gan dynnu ymaith yr holl bwerau i weithredu, ar wahân i baratoi'r cyfrifon terfynol a dirwyn ei waith i ben, a hynny o 1 Ebrill, ac yna bydd yn dod â'r pwerau gweddilliol hynny i ben ar 30 Mehefin.

7. Mae'r Gorchymyn Ardal a Chyfansoddiad i bob pwrpas yn dadwneud yn gorchymyn a roddodd fodolaeth i'r Gorfforaeth ym 1987. Eto, mae'n gwneud hynny mewn dau gam, gan ddiddymu'r ardal o 1 Ebrill a diddymu'r cyfansoddiad ar 30 Mehefin.

8. Mae Gorchymyn "165 B" yn paratoi'r ffordd ar gyfer y Gorchymyn Diddymu a'r Gorchymyn Ardal a Chyfansoddiad drwy drosglwyddo i'r cyrff olynol yr eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau nad yw'n gyfleus eu trosglwyddo drwy gytundeb.

9. Mae Gorchymyn "165 A" yn gweithredu'r un swyddogaeth mewn perthynas â'r eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad.

10. Mae copïau o'r rhain yn atodiadau 6-9.

### Y Goblygiadau Ariannol

11. Mae'r tablau canlynol yn crynhoi gwariant yn y gorffennol ynghyd â'r costau mesuradwy y disgwylir i'r Cynulliad eu hysgwyddo ar ôl i'r Gorfforaeth gael ei dirwyn i ben.

<b>Alldro Gros CDBA</b>	<b>Blwyddyn Ariannol 1996/7</b>	<b>Blwyddyn Ariannol 1997/98</b>	<b>Blwyddyn Ariannol 1997/98</b>	<b>Blwyddyn Ariannol 1997/98</b>	<b>Blwyddyn Ariannol 2000- 01</b>
£ miliwn	67.9	58.8	50.4	54.6 <sup>1</sup>	26.6 <sup>1</sup>

<b>AMCANGYFRIFON PRESENNOL O ARIAN OLYNOL CDBC</b>	<b>Blwyddyn Ariannol 2000-01</b>	<b>Cyfanswm 5 mlynedd</b>
Cymorth Grant (Gwaelodlin)	17.40	113.00
Derbyniadau	9.20	17.60
<b><i>Rhaglen Gros</i></b>	<b>26.60</b>	<b>130.60</b>
Awdurdod y Porthladd <sup>2</sup>	amcangyfrif (parhaus)	-59.20
Cyngor Sir Caerdydd	dros 3 blynedd	-11.90
CBS Bro Morgannwg	dros 3-5 blynedd	-7.59
WDA <sup>3</sup>	dros 25 mlynedd	-32.50

Projectau Eraill <sup>4</sup>	-1.20	-9.00
<b>Heb ei Ddyrannu<sup>5</sup></b> (diffyg ariannol)	<b>(1.99)</b>	10.41

### **Troednodiadau:**

(1) amcanestyniad.

**(2)amcangyfrif yn unig, yn amodol ar y costau alldro terfynol ar gyfer y**

**Morglawdd a'r trefniadau manwl terfynol ar gyfer sefydlu Awdurdod y**

**Porthladd.**

(3) Yn cynnwys taliadau ariannol yn erbyn cyllid Menter Cyllid Preifat Rhodfa Bute.

(4)Techniquet, Gwastadeddau Gwent a'r WIMM.

(5) Dylai'r penderfyniad i ohirio carthu'r Bae a chronni dr ryddhau rhywfaint o arian o gyllideb y Gorfforaeth ar gyfer 1999-2000 i wneud iawn am y diffyg yn 2000-2001. Caiff yr arian a allai fod dros ben yn ystod y cyfnod pum mlynedd nesaf ei ystyried yn ofalus yng nghylchoedd cynllunio cyllidebau'r dyfodol.

*Atodiad 1*

**Yr hyn a drosglwyddir i Gyngor Sir Caerdydd mewn perthynas â'i swyddogaethau presennol fel awdurdod lleol.**

**Egwyddorion cyffredinol.**

1 Yn ôl y Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd a Chyngor Sir Caerdydd "... dylid trosglwyddo i'r Cyngor yr holl asedau a'r rhwymedigaethau sy'n rhan o gyfrifoldeb y Cyngor, ac eithrio rhai datblygu".

*Y cyfan a drosglwyddir*

2.Mae'r pecyn yn cynnwys y prif elfennau hyn:

- manau agored i'r cyhoedd
- mabwysiadu priffyrdd a'r seilwaith draenio
- cynnal-a-chadw a monitro Tomen Malurion Rwbwl Tremorfa
- cynnal-a-chadw a monitro Tomen Ferry Road, gan gynnwys casglu a thrin trwytholchion

**Agweddau pwysig.**

3. Bydd y Cyngor yn cael pecyn adfywio dros gyfnod o 3 blynedd er mwyn cwblhau rhai projectau penodol nad yw'n debygol y byddant yn cael eu cwblhau yn ystod oes y Gorfforaeth, ac er mwyn darparu cymorth trosiannol ar gyfer rhai gwasanaethau lleol yn Ne Caerdydd.

*Goblygiadau ariannol.*

4. Yn ogystal â'r pecyn adfywio, bydd y Cyngor yn cael cymorth ar gyfer y costau a fydd yn gysylltiedigâ rheoli a chynnal-a-chadw'r asedau sydd heb fod yn rhai datblygu a etifeddir ganddo, a hynny mae'n debyg ar ffurf cyfandaliad a gymudwyd.

*Atodiad 2*

*Yr hyn a drosglwyddir i Gyngor Sir Caerdydd mewn perthynas â'i swyddogaethau newydd fel awdurdod y porthladd.*

*Egwyddorion cyffredinol.*

1. Yn ôl y Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth rhwng y Prif Ysgrifennydd a Chyngor Sir Caerdydd, "Bydd y morglawdd, y rhannau hynny o'r bae mewndirol a'r porthladd allanol sy'n eiddo i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ar hyn o bryd, a rhai asedau cysylltiedig, y cael eu trosglwyddo

i Awdurdod y Porthladd pan fydd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn cael ei dirwyn i ben".

*Y cyfan a drosglwyddir*

2. Yr asedau y bydd eu hangen i redeg awdurdod y porthladd, hynny yw: i fodloni dyletswyddau statudol awdurdod porthladd; rhedeg y morfa a'r bae mewndirol yn unol â Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993; a hyrwyddo ardal y Bae.

*Agweddau pwysig*

3. I ddechrau, bydd y cytundeb a roddodd y cyfrifoldebau hyn i'r Sir o dan Ddeddf y Morglawdd yn ddilys am bum mlynedd. Bydd trefniadau arbennig ar gyfer gwaredu asedau a drosglwyddir o dan y cytundeb hwn fel y bo'r morglawdd a'r asedau cysylltiedig yn cael eu cadw gyda'i gilydd ar ffurf pecyn integredig.

*Goblygiadau ariannol.*

4. Bydd y Cynulliad yn ysgwyddo'r holl gostau rhesymol sy'n angenrheidiol er mwyn rhedeg y Morglawdd a'r bae. Yn ymarferol, caiff y costau eu rhannu i dri grp – y rhai y gellir yn rhesymol eu mesur ymlaen llaw ac y darperir ar eu cyfer ac sy'n cael eu cadw o fewn terfynau ar ddechrau bob blwyddyn ariannol; y rhai hynny y gellir eu rhagweld ond na ellir eu mesur yn fanwl ymlaen llaw; ac unrhyw gostau posibl na ellir eu rhagweld. Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd y costau hyn hyd at oddeutu £14m yn ystod y flwyddyn gyntaf (2000-01).

## *Atodiad 3*

*Yr hyn a drosglwyddir i Gyngor Bro Morgannwg.*

### **Egwyddorion cyffredinol.**

1. Yn ôl y Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd a Chyngor Bro Morgannwg, "... mewn egwyddor, dylai'r holl asedau a'r rhwymedigaethau sydd heb fod yn rhai datblygu, sy'n dod o dan faes cyfrifoldeb y Cyngor gael eu trosglwyddo i'r Cyngor....."

#### *Y cyfan a drosglwyddir*

2 Gellir rhannu'r asedau o dan sylw o dan dri phennawd bras:

- wal doc Penarth ac adeiladwaith y sgarpiâu;
- manau agored, gan gynnwys cylchfan Marconi;
- mabwysiadu seilwaith dr brwnt a dr wyneb

#### *Agweddau pwysig.*

3. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am y man agored i'r cyhoedd ym Mharc Plymouth (safle tirlenwi segur) am fod yna ofnau ynglŷn â llygredd. Fe'i trosglwyddir yn lle hynny i Awdurdod Datblygu Cymru.

#### *Goblygiadau ariannol.*

4. Bydd y Cyngor yn cael cyfandaliad wedi'i gymudo, tua £88,000 pan gaiff y Gorfforaeth ei dirwyn i ben er mwyn talu'r costau cynnal-a-chadw a rheoli a etifeddir ganddo. Yn ogystal â hyn, caiff hyd at £7.5m dros 5 mlynedd i gwblhau'r cynllun Cyswllt â Phenarth a fydd yn darparu llwybr ar hyd y clogwyni rhwng Penarth a'r Morglawdd.

## *Atodiad 4*

*Yr hyn a drosglwyddir i Awdurdod Datblygu Cymru*

### *Egwyddorion cyffredinol.*

1. Yn ei ddatganiad Seneddol ysgrifenedig ar 31 Mawrth, 1999, yn ôl yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, "Bydd asedau a rhwymedigaethau datblygu, gan gynnwys rheoli Menter Cyllid Preifat Rhodfa Bute, yn cael eu trosglwyddo i Awdurdod Datblygu Cymru".

2. Yn ymarferol, bydd yr Awdurdod hefyd yn gyfrifol am eitemau eraill nad oes olynnydd amlwg arall ar eu cyfer. Yn ogystal â hynny, Awdurdod Datblygu Cymru fydd y corff gweddilliol sylfaenol ar gyfer unrhyw asedau sydd heb eu trosglwyddo drwy Gytundeb neu Orchymyn.

### *Y cyfan a drosglwyddir*

3. Bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn gyfrifol am oddeutu dwsin o safleoedd ynghyd â thua 30 o fuddiannau/ cyfrifoldebau eraill (mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, rhyddfrint safleoedd sydd wedi'u gosod ar brydlesau hir, taliadau grant sy'n ddyledus, cytundebau ynglŷn ag elw dros ben).

### *Agweddau pwysig*

4. Awdurdod Datblygu Cymru fydd yn gyfrifol am reoli project Menter Cyllid preifat Bute Avenue, sy'n ymestyn dros gyfnod o 25 mlynedd, gan gynnwys cwblhau cam 2. Mae hwn yn ymrwymiad contractiol y bydd yn ofynnol darparu arian ar ei gyfer o'r adeg pryd yr adeilidir y Rhodfa. Mae ymrwymiad hefyd o fewn cyfnod 3-5 mlynedd i ariannu'r gwaith o gael gwared ar arglawdd rheilffordd Rhodfa Bute os oes modd sicrhau'r cytundebau a'r caniatâd angenrheidiol, neu er mwyn lleddu pontydd Stryd Herbert.

5. Ymhlith yr asedau eraill y bydd yn eu hetifeddu y mae dau benodol: Ystad Ddiwydiannol Seawalls sydd, ar ôl cwblhau Ocean Park, yn debygol o fod yn un o safleoedd y sector cyhoeddus a fydd yn arwain y ffordd o safbwynt denu buddsoddiad ar raddfa fawr i ardal Caerdydd; a'r Gyfnewidfa Lo, sydd, oherwydd ei leoliad a'i hanes, yn bwysicach na'i werth masnachol yn unig.

### *Goblygiadau ariannol.*

6. Y Cynulliad fydd yn ysgwyddo costau llawn cynllun Rhodfa Bute, net unrhyw elw datblygu sy'n cael ei rannu. Disgwylir y bydd yr asedau a'r rhwymedigaethau eraill yn becyn gweddol gytbwys lle bydd yr angen am wariant yn cyfateb yn fras i werth yr asedau adeg eru gwaredu. Darperir ar gyfer costau staffio ychwanegol hefyd yn y cyfrifoldebau hyn a etifeddir.

### *Atodiad 5*

### *Yr hyn a drosglwyddir i Gyngor Cefn Gwlad Cymru*

### **Egwyddorion cyffredinol.**

1. Yn ôl y datganiad Seneddol ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd ar 31 Mawrth 1999, "Bydd y cyfrifoldeb dros redeg a chynnal-a-chadw Gwarchodfa Adar Gwastadeddau Gwent yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Cefn Gwlad Cymru".

### *Y cyfan a drosglwyddir*

2. Cyngor Cefn Gwlad Cymru fydd yn gyfrifol am dir y warchodfa. Disgwylir y bydd y gwaith seilwaith y mae angen ei wneud er mwyn creu amrediad o gynefinoedd wedi'i gwblhau i bob pwrpas cyn i'r tir gael ei drosglwyddo.

### *Agweddau pwysig.*

3. Cyngor Cefn Gwlad Cymru fydd yn gyfrifol am y gorchmynion prynu gorfodol sy'n weddill ers adeg caffael y warchodfa, a chyfrifoldeb Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a/neu'r Cynulliad fydd dod o hyd i unrhyw gyllid ychwanegol.

*Goblygiadau ariannol*

4. Y Cynulliad fydd yn ysgwyddo holl gostau rhedeg y warchodfa ym mhob achos, os ydynt yn rhesymol ac yn angenrheidiol. Disgwylir i'r costau rhedeg godi, ac y bydd rhai costau unwaith ac am byth hefyd yn ystod y blynyddoedd cynnar.

**ANNEX 6**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**National Assembly for Wales**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 Rhif (Cy. )**

**2000 No. (W. )**

**DATBLYGU TREFOL, CYMRU**

**URBAN DEVELOPMENT, WALES**

**Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae  
Caerdydd (Ardal a Chyfansoddiad) 2000**

**The Cardiff Bay Development Corporation  
(Area and Constitution) Order 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r Gorchymyn a ddynododd Fae Caerdydd yn ardal ddatblygu drefol ac a sefydlodd Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Diddymir erthyglau 2 a 3 o'r Gorchymyn hwnnw, a ddynododd yr ardal, ar 1 Ebrill 2000 a diddymir y gweddill, a sefydlodd y Gorfforaeth, ar 1 Gorffennaf 2000.

This Order revokes the Order which designated Cardiff Bay as an urban development area and which established the Cardiff Bay Development Corporation. Articles 2 and 3 of that Order, which designated the area, are revoked from 1<sup>st</sup> April 2000 and the remainder, which established the Corporation, is revoked from 1<sup>st</sup> July 2000.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd, ar 1 Ebrill 2000, yn diddymu'r Gorchymyn a roddodd ganiatâd cyfyngedig i ddatblygu yn ardal ddatblygu drefol Bae Caerdydd ar yr amod bod datblygiad o'r fath yn unol â'r cynigion a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a gymeradwywyd ganddo.

This Order also revokes, from 1<sup>st</sup> April 2000, the Order which granted limited permission for development in the urban development area of Cardiff Bay provided that such development was in accordance with proposals submitted to, and approved by, the Secretary of State.

## OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif (Cy. )

### DATBLYGU TREFOL, CYMRU

**Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae  
Caerdydd (Ardal a Chyfansoddiad) 2000**

*Wedi'i wneud.....[ ] 2000*

*Yn dod i rym 1 Ebrill 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 134 a 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980<sup>(a)</sup>, ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru<sup>(b)</sup>.

#### **Enwi a chychwyn**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Ardal a Chyfansoddiad) 2000 a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2000.

#### **Ardal datblygu trefol**

2.-(1) Drwy hyn diddymir erthyglau 2 a 3 o Orchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Ardal a Chyfansoddiad) 1987<sup>(c)</sup>.

(2) Diddymir y gweddill o Orchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Ardal a Chyfansoddiad) 1987 gydag effaith o 1 Gorffennaf 2000.

#### **Gorchymyn datblygu arbennig**

3. Drwy hyn diddymir Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Ardal Ddatblygu Drefol Bae Caerdydd) 1989<sup>(ch)</sup>,

## STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. (W. )

### URBAN DEVELOPMENT, WALES

**The Cardiff Bay Development Corporation  
(Area and Constitution) Order 2000**

*Made.....[ ] 2000*

*Coming into force 1<sup>st</sup> April 2000*

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 134 and 135 of the Local Government, Planning and Land Act 1980<sup>(a)</sup>, which are now vested in it so far as exercisable in Wales<sup>(b)</sup>

#### **Citation and commencement**

1.-(1) This Order may be cited as the Cardiff Bay Development Corporation (Area and Constitution) Order 2000 and shall come into force on 1<sup>st</sup> April 2000.

#### **Urban development area**

2.-(1) Articles 2 and 3 of the Cardiff Bay Development Corporation (Area and Constitution) Order 1987<sup>(c)</sup> are hereby revoked.

(2) The remainder of the Cardiff Bay Development Corporation (Area and Constitution) Order 1987 shall be revoked with effect from 1<sup>st</sup> July 2000.

#### **Special development order**

3. The Town and Country Planning (Cardiff Bay Urban Development Area) Special Development Order 1989<sup>(d)</sup> is hereby revoked.



Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru  
[ ] 2000

Signed on behalf of the National Assembly for  
Wales  
[ ] 2000

Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu  
Economaid

Assembly Secretary for Economic Development

(a) 1990 p.65; diwygiwyd adran 134 gan adran 47 o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63) a Rhan III o Atodlen 12 iddi. Diwygiwyd adrannau 134 a 135 gan adran 179 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p.28).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(ch) O.S. 1989/1180

(c) O.S. 1987/646

(a) 1990 c.65; section 134 was amended by section 47 of, and Part III of Schedule 12 to, the Housing and Planning Act 1986 (c.63). Sections 134 and 135 were amended by section 179 of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c.28).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1987/646

## ANNEX 7

### **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

#### **OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy.)**

#### **DATBLYGU TREFOL, CYMRU**

**Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd  
(Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a  
Rhwymedigaethau) (Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru) 2000**

#### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd gan Orchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Ardal a Chyfansoddiad) 1987 o dan bwerau a gynhwysir yn adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980. Sefydlwyd y Gorfforaeth er mwyn adfywio Bae Caerdydd a ddynodwyd yn ardal datblygu trefol gan yr un Gorchymyn. Bwriedir diddymu'r Gorfforaeth ar 1 Gorffennaf 2000.

### **National Assembly for Wales**

#### **STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W.)**

#### **URBAN DEVELOPMENT, WALES**

**The Cardiff Bay Development Corporation  
(Transfer of Property, Rights and Liabilities)  
(National Assembly for Wales) Order 2000**

#### **EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

**The Cardiff Bay Development Corporation was established by the Cardiff Bay Development Corporation (Area and Constitution) Order 1987 under powers contained in section 135 of the Local Government, Planning and Land Act 1980. The Corporation was established for the purposes of regenerating Cardiff Bay which**

O dan adran 165 o Ddeddf 1980, galluogir y Gorfforaeth i drosglwyddo, drwy gytundeb â llywodraeth leol neu gorff arall, ei holl ymgymeriad neu ran ohono. Wrth ddisgwyl ei ddiddymiad mae'r Gorfforaeth wedi arfer y per hwn i ffurfio cytundebau â Chyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn trosglwyddo iddynt rannau penodol o ymgymeriad y Gorfforaeth.

Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi o dan y Cytundebau hyn ac sy'n parhau wedi'u breinio yng Nghorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.

## **OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy. )**

### **DATBLYGU TREFOL, CYMRU**

**Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2000**

*Wedi'i wneud.....[ ] 2000*

*Yn dod i rym .....31 Mawrth 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Adran 165A(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 <sup>(a)</sup>, ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru <sup>(b)</sup>, ac ar ôl ymgynghori â phob awdurdod lleol perthnasol yn unol ag adran 165A (3) o'r Ddeddf honno:

**was designated as an urban development area by the same Order. It is proposed that the Corporation will be dissolved on 1<sup>st</sup> July 2000.**

Under section 165 of the 1980 Act the Corporation is empowered to transfer, by agreement with a local authority or other body, all or part of its undertaking. In anticipation of its dissolution the Corporation has exercised this power to enter into agreements with Cardiff County Council, the Vale of Glamorgan County Borough Council, the Welsh Development Agency and the Countryside Council for Wales for the transfer to them, of certain parts of the Corporation's undertaking.

This Order transfers to the National Assembly for Wales any rights and liabilities arising under these Agreements and which are vested in the Cardiff Bay Development Corporation.

## **STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W. )**

### **URBAN DEVELOPMENT, WALES**

**The Cardiff Bay Development Corporation (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (National Assembly for Wales) Order 2000**

*Made.....[ ] 2000*

*Coming into force .....31<sup>st</sup> March 2000*

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by Section 165A(1) of the Local Government, Planning and Land Act 1980 <sup>(a)</sup>, which are now vested in it so far as exercisable in Wales<sup>(b)</sup>, and after having consulted each relevant local authority in accordance with section 165A(3) of that Act:

## Enwi, cychwyn a dehongli

1. –(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2000.

(2) Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Mawrth 2000.

(3) Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "y Cytundebau adran 165" (*"the section 165 Agreements"*) yw'r cytundebau a wnaed rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, yn unol ag adran 165 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980<sup>(c)</sup>.

ystyr "y Gorfforaeth" (*"the Corporation"*) yw Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.

## Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau

2.–(1) Drwy hyn trosglwyddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi o dan y Cytundebau adran 165 ac a freinir yn y Gorfforaeth.

(2) Ni fydd paragraff (1) uchod yn gymwys i unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Gorfforaeth a) y bwriedir eu trosglwyddo o dan adran 165 neu 165B o Ddeddf 1980 <sup>(d)</sup>.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

[ ] 2000

Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

## Citation, commencement and interpretation

1. –(1) This Order may be cited as the Cardiff Bay Development Corporation (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (National Assembly for Wales) Order 2000.

(2) This Order shall come into force on 31<sup>st</sup> March 2000.

(3) In this Order-

"the Corporation" (*"y Gorfforaeth"*) means the Cardiff Bay Development Corporation;

"the section 165 Agreements" (*"y Cytundebau adran 165"*) means the agreements made between the Cardiff Bay Development Corporation and Cardiff County Council, the Vale of Glamorgan County Borough Council, the Welsh Development Agency and the Countryside Council for Wales, pursuant to section 165 of the Local Government, Planning and Land Act 1980 <sup>(c)</sup>.

## Transfer of property, rights and liabilities

2.–(1) There are hereby transferred to the National Assembly for Wales any rights and liabilities arising under the section 165 Agreements and which are vested in the Corporation.

(2) Paragraph (1) above shall not apply to any property, rights and liabilities of the Corporation which are proposed to be transferred under section 165 or 165B of the 1980 Act<sup>(d)</sup>.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

[ ] 2000

Assembly Secretary for  
Economic Development

(a) 1980 (p.65); mewnosodwyd adran 165A gan adran 180(2) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p.28) ac fe'i diwygiwyd gan adran 143(4) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) Diwygiwyd adran 165 gan adran 180 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p.28) ac Atodlen 22 iddi a chan adran 143(3) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53)

(d) Mewnosodwyd adran 165A gan adran 180(2) o Ddeddf 1993 ac fe'i diwygiwyd gan adran 143(4) o Ddeddf 1996.

(a) 1980 (c.65); section 165A was inserted by section 180(2) of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c.28) and was amended by section 143(4) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 (c.53).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) Section 165 was amended by section 180 of, and Schedule 22 to, the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c.28) and by section 143(3) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 (c.53).

(d) Mewnosodwyd adran 165A gan adran 180(2) o Ddeddf 1993 ac fe'i diwygiwyd gan adran 143(4) o Ddeddf 1996.

## **ANNEX 8**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy. )**

**DATBLYGU TREFOL, CYMRU**

**Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae  
Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a  
Rhwymedigaethau) 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd gan Orchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Ardal a Chyfansoddiad) 1987 o dan bwerau a gynhwysir yn adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980. Sefydlwyd y Gorfforaeth er mwyn adfywio Bae Caerdydd a ddynodwyd yn ardal datblygu trefol gan yr un Gorchymyn.

Mae Awdurdod Datblygu Cymru'n Gorff gweithredol Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac a sefydlwyd gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru, hyrwyddo effeithlonrwydd mewn busnes a chystadleugarwch rhyngwladol yng Nghymru a hybu gwella'r amgylchedd yng Nghymru.

O dan adran 165 o Ddeddf 1980, galluogir y

**National Assembly for Wales**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W. )**

**URBAN DEVELOPMENT, WALES**

**The Cardiff Bay Development Corporation  
(Transfer of Property, Rights and Liabilities)  
Order 2000**

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

The Cardiff Bay Development Corporation was established by the Cardiff Bay Development Corporation (Area and Constitution) Order 1987 under powers contained in section 135 of the Local Government, Planning and Land Act 1980. The Corporation was established for the purposes of regenerating Cardiff Bay which was designated as an urban development area by the same Order.

The Welsh Development Agency is an executive Assembly Sponsored Public Body which was established by the Welsh Development Agency Act 1975 for the purposes of furthering the economic and social development of Wales, promoting efficiency in business and international competitiveness in Wales and furthering the improvement of the environment in Wales.

Gorfforaeth i drosglwyddo, drwy gytundeb â llywodraeth leol neu gorff arall, ei holl ymgymeriad neu ran ohono. Wrth ddisgwyl ei ddiwydiad mae'r Gorfforaeth wedi arfer y per hwn i ffurfio cytundebau â Chyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn trosglwyddo iddynt rannau penodol o ymgymeriad y Gorfforaeth.

Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo i bob un o'r cyrff hynny unrhyw hawliau a rhwymedigaethau ynglŷn â'r rhan honno o ymgymeriad y Gorfforaeth a drosglwyddwyd i bob un ohonynt ac a allai fel arall fethu cael eu trosglwyddo. Mae hefyd yn trosglwyddo i Awdurdod Datblygu Cymru unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau gweddilliol sy'n parhau wedi'u breinio yn y Gorfforaeth gan eithrio'r rheiny o dan y Cytundebau adran 165.

Under section 165 of the 1980 Act the Corporation is empowered to transfer, by agreement with a local authority or other body, all or part of its undertaking. In anticipation of its dissolution the Corporation has exercised this power to enter into agreements with Cardiff County Council, the Vale of Glamorgan County Borough Council, the Welsh Development Agency and the Countryside Council for Wales for the transfer to them, of certain parts of the Corporation's undertaking.

This Order transfers to each of those bodies all the rights and liabilities in respect of that part of the Corporation's undertaking which has been transferred to each of them and which might otherwise have failed to be transferred. It also transfers to the Welsh Development Agency any residual property, rights and liabilities which may remain vested in the Corporation, except those under the section 165 Agreements.

## **OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy. )**

**DATBLYGU TREFOL, CYMRU**

**Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2000**

*Wedi'i wneud.....[ ] 2000*

*Yn dod i rym.....31 Mawrth 2000*

## **STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W. )**

**URBAN DEVELOPMENT, WALES**

**The Cardiff Bay Development Corporation  
(Transfer of Property, Rights and Liabilities)  
Order 2000**

*Made.....[ ] 2000*

*Coming into force...31<sup>st</sup> March 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Adran 165B(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980<sup>(a)</sup>, ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru<sup>(b)</sup>, ac ar ôl ymgynghori â phob awdurdod lleol perthnasol yn unol ag adran 165B(5) o'r Ddeddf honno:

## Enwi, cychwyn a dehongli

1. –(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2000.

(2) Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 31 Mawrth 2000.

(3) Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "yr Awdurdod" (*"the Agency"*) yw Awdurdod Datblygu Cymru;

ystyr "y cyrff penodedig" (*"the specified bodies"*) yw Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru;

ystyr "y Cytundebau adran 165" (*"the section 165 Agreements"*) yw'r cytundebau a wnaed rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, yn unol ag adran 165 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980<sup>(ch)</sup> a dehonglir "y Cytundeb adran 165 perthnasol" yn unol â hynny;

ystyr "Deddf 1980" (*"the 1980 Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980;

ystyr "y dyddiad cychwyn" (*"the commencement date"*) yw'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym;

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by Section 165B(1) of the Local Government, Planning and Land Act 1980<sup>(a)</sup>, which are now vested in it so far as exercisable in Wales<sup>(b)</sup>, and after having consulted each relevant local authority in accordance with section 165B(5) of that Act:

## Citation and commencement and interpretation

1. –(1) This Order may be cited as the Cardiff Bay Development Corporation (Transfer of Property, Rights and Liabilities) Order 2000.

(2) This Order shall come into force on 31<sup>st</sup> March 2000.

(3) In this Order-

"the Agency" (*"yr Awdurdod"*) means the Welsh Development Agency;

"the commencement date" (*"y dyddiad cychwyn"*) means the date on which this Order comes into force;

"the Corporation" (*"y Gorfforaeth"*)

means the Cardiff Bay Development Corporation;

"the dissolution date" (*"y dyddiad diddymu"*) means the date on which the Corporation is dissolved by order under section 166 of the 1980 Act<sup>(c)</sup>;

"the section 165 Agreements" (*"y Cytundebau adran 165"*) means the agreements made between the Cardiff Bay Development Corporation and Cardiff County Council, the Vale of Glamorgan County Borough Council, the Welsh Development Agency and the Countryside Council for Wales, pursuant to

ystyr "y dyddiad diddymu" ("*the dissolution date*") yw'r dyddiad y diddymir y Gorfforaeth drwy orchymyn o dan adran 166 o Ddeddf 1980<sup>(c)</sup> ;

ystyr "y Gorfforaeth" ("*the Corporation*") yw Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.

## **Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**2.** Trosglwyddir a breinir ym mhob un o'r cyrff penodedig yr holl hawliau a rhwymedigaethau y mae gan y Gorfforaeth hawl arnynt neu y mae'n ddarostyngedig iddynt ynglŷn â'r rhan honno o ymgymeriad y Gorfforaeth a drosglwyddwyd i bob un ohonynt o dan y Cytundeb adran 165 perthnasol.

**3. –(1)** Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, mae unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau a freiniwyd yn y Gorfforaeth ar y dyddiad cychwyn drwy hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod ar y dyddiad hwnnw.

(2) Ni fydd paragraff (1) uchod yn gymwys i unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Gorfforaeth-

(a) y bwriedir eu trosglwyddo o dan adran 165 neu 165A o Ddeddf 1980 <sup>(d)</sup>

(b) y mae'r Gorfforaeth wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod yn ysgrifennedig, o leiaf 14 diwrnod cyn y dyddiad cychwyn, eu bod yn eiddo, hawliau a rhwymedigaethau y mae o'r farn bod angen eu cadw neu y byddai'n fuddiol eu cadw at y diben o baratoi ei gyfrifon a'i adroddiad terfynol a dirwyn ei fusnes i ben; neu

(c) a drosglwyddir fel arall gan y gorchymyn hwn.

section 165 of the Local Government, Planning and Land Act 1980<sup>(d)</sup> and "the relevant section 165 Agreement" shall be construed accordingly;

"the specified bodies" ("*y cyrff penodedig*") means Cardiff County Council, the Vale of Glamorgan County Borough Council, the Welsh Development Agency and the Countryside Council for Wales;

"the 1980 Act" ("*Deddf 1980*") means the Local Government, Planning and Land Act 1980.

## **Transfer of property, rights and liabilities**

**2.** There shall be transferred to and vest in each of the specified bodies all rights and liabilities to which the Corporation is entitled or subject in respect of that part of the Corporation's undertaking transferred to each of them under the relevant section 165 Agreement.

**3.-(1)** Subject to paragraph (2) below, all property, rights and liabilities which remain vested in the Corporation on the commencement date are hereby transferred to the Agency on that date.

(2) Paragraph (1) above shall not apply to any property, rights and liabilities of the Corporation-

(a) which are proposed to be transferred under section 165 or 165A of the 1980 Act <sup>(e)</sup>; or

(b) which the Corporation has notified in writing to the Agency, at least 14 days before the commencement date, as property, rights and liabilities which it thinks necessary or expedient to retain for the purpose of preparing its final accounts and report and winding up its affairs; or

(c) which are otherwise transferred by this order.

(3) Caiff unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n parhau wedi'u breinio yn y Gorfforaeth yn union cyn y dyddiad diddymu drwy hyn eu trosglwyddo i'r Awdurdod ar y dyddiad hwnnw.

4. Mae erthygl 2 yn cael effaith mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau y mae'n gymwys iddynt ac mae erthygl 3 yn cael effaith mewn perthynas ag eiddo, hawliau a rhwymedigaethau y mae'n gymwys iddynt, er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai'n atal neu'n cyfyngu ar drosglwyddo'r eiddo, hawliau neu rwymedigaethau fel y bo'r achos heblaw gan yr erthyglau hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

[ ] 2000

(3) Any property, rights and liabilities remaining vested in the Corporation immediately before the dissolution date shall hereby be transferred to the Agency on that date.

4. Article 2 has effect in relation to rights and liabilities to which it applies and article 3 has effect in relation to property, rights and liabilities to which it applies, in spite of any provision (of whatever nature) which would prevent or restrict the transfer of the property, rights or liabilities as the case may be otherwise than by those articles.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

[ ] 2000

Ysgrifennydd y Cynulliad  
dros Ddatblygu Economaidd

Assembly Secretary for  
Economic Development

<sup>a)</sup> 1980 (p.65); mewnosodwyd adran 165B gan adran 143(1) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53).

<sup>b)</sup> Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

<sup>c)</sup> Cynigir diddymu'r Gorfforaeth ar 1 Gorffennaf 2000.

<sup>(ch)</sup> Diwygiwyd adran 165 gan adran 180 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p.28) ("Deddf 1993") a chan adran 143(3) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p.53) ("Deddf 1996").

<sup>d)</sup> Mewnosodwyd adran 165A gan adran 180(2) o Ddeddf 1993 ac fe'i diwygiwyd gan adran 143(4) o Ddeddf 1996.

<sup>(a)</sup> 1980 (c.65); section 165B was inserted by section 143(1) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 (c.53).

<sup>(b)</sup> See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

<sup>(c)</sup> It is proposed that the Corporation will be dissolved on 1<sup>st</sup> July 2000.

<sup>(d)</sup> Section 165 was amended by section 180 of, and Schedule 22 to, the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c.28) ("the 1993 Act") and by section 143(3) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 (c.53) ("the 1996 Act");

<sup>(e)</sup> Section 165A was inserted by section 180(2) of the 1993 Act and was amended by section 143(4) of the 1996 Act

## ANNEX 9

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**OFFERYNNAU STATUDOL**

**National Assembly for Wales**  
**STATUTORY INSTRUMENTS**



**2000 Rhif (Cy. )**

**DATBLYGU TREFOL, CYMRU**

**Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae  
Caerdydd (Diddymu) 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd gan Orchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Ardal a Chyfansoddiad) 1987 o dan bwerau a gynhwysir yn adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980. Sefydlwyd y Gorfforaeth er mwyn adfywio Bae Caerdydd a ddynodwyd yn ardal datblygu trefol gan yr un Gorchymyn o dan bwerau a gynhwysir yn adran 134 o'r Ddeddf honno.

Yn rhinwedd darpariaethau adran 166(3) o Ddeddf 1980 bydd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, yn peidio â gweithredu gan eithrio'r dibenion o baratoi ei gyfrifon a'i adroddiadau terfynol

a dirwyn ei fusnes i ben. Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r Gorfforaeth ar 1 Gorffennaf 2000.

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy. )**

**DATBLYGU TREFOL, CYMRU**

**Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae  
Caerdydd (Diddymu) 2000**

**Wedi'i wneud.....[ ] 2000**

**Yn dod i rym .....1 Ebrill**

**2000 No. (W. )**

**URBAN DEVELOPMENT, WALES**

**The Cardiff Bay Development Corporation  
(Dissolution) Order 2000**

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

**The Cardiff Bay Development Corporation was established by the Cardiff Bay Development Corporation (Area and Constitution) Order 1987 under powers contained in section 135 of the Local Government, Planning and Land Act 1980.**

**The Corporation was established for the purposes of regenerating Cardiff Bay which was designated as an urban development area by the same Order under powers contained in section 134 of that Act.**

By virtue of the provisions of section 166(3) of the 1980 Act the Cardiff Bay Development Corporation will, on the coming into force of this Order, cease to act except for the purposes of preparing its final accounts and reports and winding up its affairs. This Order dissolves the Corporation on 1<sup>st</sup> July 2000.

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W. )**

**URBAN DEVELOPMENT, WALES**

**The Cardiff Bay Development Corporation  
(Dissolution) Order 2000**

*Made.....[ ] 2000*

*Coming into force.....1<sup>st</sup> April*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Adran 166(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 <sup>(a)</sup>, ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru<sup>(b)</sup>, ac ar ôl ymgynghori â phob awdurdod lleol perthnasol yn unol ag adran 166(2) o'r Ddeddf honno:

### **Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Diddymu) 2000 a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2000.

### **Diddymu'r gorfforaeth**

2. Diddymir Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ar 1 Gorffennaf 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

[ ] 2000

Ysgrifennydd y Cynulliad  
dros Ddatblygu Economaidd

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by Section 166(1) of the Local Government, Planning and Land Act 1980<sup>(a)</sup>, which are now vested in it so far as exercisable in Wales <sup>(b)</sup>, and after having consulted each relevant local authority in accordance with section 166(2) of that Act:

### **Citation and commencement**

1. This Order may be cited as the Cardiff Bay Development Corporation (Dissolution) Order 2000 and shall come into force on 1<sup>st</sup> April 2000 .

### **Dissolution of the corporation**

2. The Cardiff Bay Development Corporation shall be dissolved on 1<sup>st</sup> July 2000 .

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

[ ] 2000

Assembly Secretary for  
Economic Development

<sup>(a)</sup> 1980 (p.65); diwygiwyd adran 166 gan adran 180(4) a (5) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p.28), gan adran 143(5) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 a chan erthygl 4 o Orchymyn Corfforaethau Datblygu Trefol yn Lloegr (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Comisiwn y Trefi Newydd) 1998 (O.S. 1998/85).

<sup>(b)</sup> Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

<sup>(a)</sup> 1980 (c.65); section 166 was amended by section 180(4) and (5) of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c.28), by section 143(5) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996 and by article 4 of the Urban Development Corporations in England (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Commission for the New Towns) Order 1998 (S.I. 1998/85).

<sup>(b)</sup> See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).